Cyngor Abertawe Swansea Council

**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Perfformiad Craffu - Gwella Gwasanaethau a Chyllid

**Ystafell Bwyllgor 5, Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Llun, 9 Rhagfyr 2019 am 10.00 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd C A Holley (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| P R Hood-Williams | L James | M H Jones |
| P K Jones | J W Jones | D W W Thomas |

**Hefyd yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd D Hopkins | Aelod y Cabinet dros yr Amgylchedd a Rheoli Isadeiledd |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Phil Holmes | Pennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas |
| Ian Davies | Arweinydd Tîm Ardal ar gyfer Rheoli Datblygiad |
| Ben Smith | Prif Swyddog Cyllid |
| Michelle Roberts | Swyddog Craffu |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wy): P Downing a/ac B J Rowlands

---

1 **Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Dim

2 **Gwahardd pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau**

Dim

3 **Cofnodion**

Codwyd dwy eitem:
1. Ymholiad am ffïoedd angori ar gyfer Marina Abertawe.
2. Costau trydan a goleuadau stryd.

Derbyniwyd y cofnodion a'r llythyrau.

4 **Cwestiynau gan y Cyhoedd**

Ni chafwyd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

5 **Monitro cyllideb Ch2 2019/20**

Roedd y Prif Swyddog Cyllid yn bresennol yng nghyfarfod y panel i drafod adroddiad Perfformiad Monitro Cyllideb Chwarter 1. Nodwyd y canlynol:

- Wrth i Raglen Gyflawni Abertawe Gynaliadwy barhau i ddatblygu cynlluniau cyflwyno'r gwasanaethau sy'n cynnwys gofynion arbedion, mae'r gorwariant bosib yn parhau i fod yn risg sylweddol ac mae angen mynd i'r afael â hwn ar draws y cyngor cyfan.
- Rhagwelir gorwariant ar gyfer y flwyddyn hon felly bydd Cyfarwyddwyr yn ailddyblu eu hymdrechion i leihau hwn. Ceir gorwariant yn y maes Addysg a'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Disgwylir i ddata perfformiad Chwarter 3 ddangos ein bod ni'n mynd i'r afael â lleihau gorwariant ar draws y cyngor
- Cyflawnwyd 80% o'r arbedion, felly mae angen dod o hyd i 20% sy'n cyfateb i oddeutu 4m. Os nad yw'r arbedion presennol yn cyflawni'r 20% hyn bydd angen dod o hyd i liniariadau eraill. Mae llawer o'r meysydd gorwariant yn dilyn sefyllfa alldro ar gyfer 2018/19 ac mae angen eu hystyried yn yr arbedion wrth symud ymlaen.
- Mae'r Tîm Rheoli Corfforaethol wedi atgyfnerthu'r trefniadau presennol ar gyfer monitro'r gyllideb.
- Clywodd y panel fod cyfleoedd gwrthbwyso'n bodoli er mwyn gwella'r galw ar y gwasanaeth a'r pwysau ariannol a nodwyd ar hyn o bryd.
- Bydd y Prif Swyddog Cyllid yn ceisio cydbwyso'r gyllideb yn gyffredinol, felly yn dechnegol bydd cyllideb sy'n gyfreithlon gytbwys erbyn diwedd y flwyddyn.
- Darpariaeth y Gronfa Wrth Gefn ar gyfer 2019/20 yw 7.072 a rhoddwyd y posibilrwydd o'i defnyddio.
- Gofynnodd y panel am hyder a gallu'r Gwasanaethau Cymdeithasol i fodloni'r gorwariant sy'n ymwneud â lefelau ffioedd. Hefyd yr hyder a'r gallu i leihau gorwariant ym maes addysg. *Byddwn yn cysylltu â Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Cyfarwyddwr Addysg er mwyn iddynt egluro'r cwestiynau hyn.*
- Gofynnodd y panel a oedd y cyngor yn cyrraedd pwynt lle nad yw'n gallu cymryd arian o'r Gronfa wrth Gefn Yswiriant. Ydyn ni'n cyrraedd y pwynt cyfyngedig ar gyfer cymryd arian o'r gronfa wrth gefn? Dywedodd y Prif Swyddog Cyllid fod gennym ddigon o arian ar gyfer 90% (o'r holl sefyllfaoedd tebygol) a dyma lefel sy'n cael ei hystyried yn ddoeth.
- Codwyd y mater o TAW a nodwyd nad oes sicrwydd o gael arian annisgwyl o ad-daliadau TAW eleni.
- Trafodwyd y Gyllideb Gyfalaf a'r benthyciad gwerth £90 miliwn ar gyfer rhoi'r materion a nodwyd yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar waith gan gyfeirio'n benodol at y Fargen Ddinesig a thrafodwyd y rhaglen Ysgolion Band B.

Dywedodd y Prif Swyddog Cyllid y dylem ddisgwyl defnyddio llawer o'r £90 miliwn dros y misoedd nesaf er mwyn dechrau ar gynnydd gyda'r prosiectau hyn, fel y cytunodd y Cabinet yn ddiweddar.

## 6 **Datganiad Cyllideb Canol Tymor 2019/20**

- Roedd yr adroddiad yn manylu ar fuddsoddiadau a llifoedd arian yr awdurdod lleol, ei fancio, ei drafodion yn y farchnad arian a'r farchnad gyfalaf; rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau hyn yn effeithiol; a mynd ar drywydd y perfformiad gorau posibl sy'n gyson â'r risgiau hynny.
- Rhoddodd yr adroddiad:

  - Ddiweddariad Economaidd -  yn y DU ac ar draws y byd
  - Adolygiad o Ddatganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a'r Strategaeth Buddsoddi
  - Adolygiad o Bortffolio Buddsoddi 2019/20
  - Adolygiad o'r Strategaeth Benthyca
  - Adolygiad o'r Strategaeth Dyled
  - Adolygiad o gydymffurfio â Therfynau'r Trysorlys a Therfynau Darbodus
- Roedd y cyngor wedi benthyca £90 miliwn cyn i Lywodraeth y DU gynyddu'r gost ad-dalu 50% heb unrhyw rybudd. Bydd y benthyciad hwn yn helpu i ariannu Abertawe Ganolog - Cam 1. Mae amseru'r penderfyniad hwn wedi arbed swm mawr o gostau ad-dalu i'r cyngor.
- Bydd angen benthyca £90 miliwn arall er mwyn ariannu'r Rhaglen Ysgolion Band B y mae'r cyngor wedi'i hymrwymo iddi.
- Trafodwyd gwariant cyfalaf masnachol hefyd a sut y mae rhai awdurdodau lleol yn prynu eiddo er mwyn ennill refeniw masnachol. Dywedodd y Prif Swyddog Cyllid y dylai Abertawe fenthyca'n gymesur ar gyfer pethau fel hyn a dylai fod ganddynt fwy nag un cymhelliad heblaw am gynyddu refeniw masnachol yn unig, megis bod yn rhan o'n datblygiad economaidd a'n strategaeth llunio lleoedd.

7 **Adroddiad ac Ymateb Swyddfa Archwilio Cymru - Effeithiolrwydd awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru**

Cynhaliodd Swyddfa Archwilio Cymru adolygiad o effeithiolrwydd yr Awdurdodau Cynlluniau Lleol yng Nghymru yn 2018/19. Roedd Pennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas a'r Arweinydd Tîm Ardal ar gyfer Rheoli Datblygiad yn bresennol yn y cyfarfod i drafod yr adroddiad.

Daeth adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru i bedwar prif gasgliad, cyflwynwyd cynllun gweithredu llawn i'r panel a nodwyd y pwyntiau a drafodwyd fel a ganlyn:

1. Mae'r Awdurdodau Cynlluniau'n ei chael hi'n heriol i gydbwyso galwadau cystadleuol oherwydd cymhlethdodau'r system gynllunio
   *Mae'r cyngor yn derbyn hyn.*
2. Mae diffyg staff ac mae lleihau staff yn dinistrio cadernid yr awdurdodau cynllunio yn raddol
   *Mae'r Adran Gynllunio wedi gorfod torri'r siwt yn ôl y brethyn, fel ymhob un o adrannau eraill y cyngor.*
3. Mae amseroldeb ac ansawdd gwneud penderfyniadau'n amrywio'n helaeth ac mae'r perfformiad ar reoli ceisiadau'n wan
   *Nid yw'r cyngor yn cytuno â hyn oherwydd bod perfformiad wedi gwella yn Abertawe ac mae'n gwneud yn dda yn erbyn dangosyddion Llywodraeth Cymru (nodwyd nad oedd Swyddfa Archwilio Cymru yn defnyddio dangosyddion Llywodraeth Cymru i asesu hyn)*
4. Mae angen gwneud rhagor o waith i gyflawni agweddau lles Deddf Cynllunio (Cymru) a Pholisi Cynllunio Cymru
   Mae Abertawe ar flaen y gad mewn perthynas â hyn oherwydd ein bod ni wedi mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol yn ddiweddar felly caiff yr agweddau hyn eu cynnwys ynddo.

- Clywodd y panel fod adroddiadau archwilio yn ymarferion defnyddiol a gallant gynorthwyo'r gwasanaethau trwy ganolbwyntio'n fanwl ar agweddau penodol. Er nad oedd yr adroddiad hwn yn gwneud hynny, roedd yn seiliedig ar nifer bach o

ymgynghoriadau manwl â rhai awdurdodau a thrwy holiaduron â'r mwyafrif o awdurdodau, gan gynnwys Abertawe. Gyda'r rhan fwyaf o adroddiadau archwilio, roedd yr archwilwyr yn dychwelyd i'r awdurdodau i drafod y canlyniadau cyn iddo gael ei gyhoeddi. Nid oedd hyn wedi digwydd gyda'r archwiliad penodol hwn.
- Cytunodd y panel nad oedd adroddiad yr archwiliad yn adlewyrchu cynllunio yn Abertawe ac nad yw'n dangos digon o wybodaeth dechnegol i wneud yr asesiad yn ddefnyddiol. Hoffai'r panel weld ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad maes o law. Bydd y swyddogion yn darparu hwn pan fydd ar gael.

8 **Adroddiad Perfformiad Blynyddol Cynllunio ar gyfer 2018/19**

Roedd Pennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas a'r Arweinydd Tîm Ardal ar gyfer Rheoli Datblygiad yn bresennol yn y cyfarfod i drafod Adroddiad Perfformiad Blynyddol Cynllunio 2018/19. Nodwyd y canlynol:

- Mae Adroddiad Perfformiad Blynyddol Cynllunio yn fecanwaith a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru i fonitro perfformiad yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn erbyn cyfres allweddol o ddangosyddion perfformiad cenedlaethol fel modd o ysgogi ei agenda ar gyfer moderneiddio'r system gynllunio yng Nghymru.
- Diolchodd Aelod y Cabinet i Gynghorwyr y Pwyllgor Cynllunio am eu gwaith dros y flwyddyn ddiwethaf.
- Cytunodd y panel y bydd y Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer Tai Amlfeddiannaeth yn gymorth wrth arwain sut y mae cynllunio yn symud ymlaen yn y maes hwn a bydd yn cefnogi penderfyniadau'r Pwyllgor Cynllunio.
- Clywyd bod Cynllunio'n gweithio'n agos gyda phartneriaid ac yn ymgynghori'n llawn. Mae'r broses gynllunio bellach yn fwy syml ac yn cyflymu'r broses.
- Mae galw i mewn ar gyfer cynllunio'n anodd iawn. Bydd y Cyng. Holley ac Aelod y Cabinet y Cyng. Thomas yn trafod hwn ymhellach.
- Gwneir llawer o waith ym meysydd lles ac amrywiaeth.
- Mynegodd y panel bryderon ynghylch Llywodraeth Cymru'n diystyru penderfyniadau lleol mewn apeliadau... ac felly'n diystyru barn leol.
- Trafodwyd gallu'r Tîm Cadwraeth Natur i orfodi ynghylch materion a rheoliadau ecolegol. Bydd y panel yn gofyn y canlynol i Aelod y Cabinet yn llythyr y Cynullydd, 'Beth sy'n cael ei wneud i sicrhau bod gallu i reoli cyfyngiadau ecolegol a sicrhau eu bod yn cael eu dilyn'.

9 **Cynllun Gwaith 2019/20**

Clywodd y panel y trefnwyd dyddiad posib ar gyfer cyfarfod sef 26 Chwefror ar gyfer y gyllideb i gwblhau craffu cyn penderfynu ar Gynigion Cyllidebol Abertawe Gynaliadwy - Yn Addas i'r Dyfodol.